**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref

Ein cyf/Our ref SF/CS/1370/15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd – Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30ain Mai 2015

Annwyl Alun

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 1 Mai, yn gofyn am y diweddaraf am Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Mae'n bleser gennyf roi gwybodaeth ichi am y ddau argymhelliad rydych yn holi amdanyn nhw:

Argymhelliad 1: Sut mae'r Llywodraeth yn cynnig ymdrin â'r pryderon ynghylch gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol i gynhyrchu amcanestyniadau cadarn a chredadwy;

Argymhelliad 2: Canlyniad y dadansoddiad technegol ynghylch a fyddai cynyddu cwmpas amser amcanestyniadau yn eu gwneud yn gadarnach.

O ran argymhelliad 1, mae 16 o Gynlluniau Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu hyd yma ac rydym ar fin gorffen archwilio dau arall, sy'n golygu y bydd gennym 18 wedi'u mabwysiadu o bosib erbyn diwedd y flwyddyn. Dyna 75% o holl CDLliau Cymru. Mae hyn yn galonogol ac yn sefyllfa bositif sy'n dangos bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu cynhyrchu a chyfiawnhau amcanestyniadau tai cadarn a chredadwy trwy'r broses archwilio.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n glos gydag awdurdodau lleol, fesul un a fesul grŵp rhanbarthol, i roi cyngor a help iddynt i ychwanegu at gadernid y broses. Mae llawer mwy o gydweithio ac o rannu arbenigeddau rhwng awdurdodau lleol nawr nag a fu. Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio demograffwyr/arbenigwyr mewnol (er enghraifft Cyngor Caerffili) a chyflogi ymgynghorwyr preifat i gynnal y gwaith angenrheidiol (er enghraifft, Cynghorau Caerdydd a Chasnewydd). Barnwyd wrth eu harchwilio bod y ddau ddull yn 'gadarn'.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*    *Printed on 100% recycled paper*

Hefyd, cafodd Cyngor Sir Ddinbych help demograffydd Cyngor Conwy i baratoi ac archwilio darpariaeth dai ei CDLl; mae Cynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi defnyddio ymgynghorwyr allanol i ystyried y dystiolaeth economaidd a thai ar y cyd. Yn sgil hynny, llwyddodd y ddau i lunio'r adrannau sy'n ymwneud â thai yn eu CDLliau.

Yng ngoleuni'r materion a godwyd cyn hynny gan y pwyllgor, ac er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau a galluoedd o fewn awdurdodau lleol ymhellach, cymeradwyais gais gan Grŵp Cynllunio Strategol y De Ddwyrain (10 awdurdod cynllunio lleol yn y De Ddwyrain, Chwefror 2014) am hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd demograffig arbenigol (PopGroup). Cydnabyddir bod meddalwedd PopGroup yn safonol i'r diwydiant a'i bod yn cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru gan gynnwys Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) Llywodraeth Cymru. Manteisiodd 26 o swyddogion awdurdodau lleol ar yr hyfforddiant hwn gan wella gwybodaeth a chapasiti awdurdodau lleol. Diolch i arbenigeddau mewnol a'r hyfforddiant technegol a roddir iddynt a modelau a data amcanestyn Llywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn gallu creu eu modelau amcanestyn eu hunain, pan fo hynny'n briodol.

Mae cyfuniad o hyfforddiant ychwanegol, cydweithredu, arferion gorau, modelau a data a chyngor gan swyddogion wedi galluogi awdurdodau lleol i lunio cynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu mabwysiadu. Mae hynny wedi rhoi awdurdodau mewn sefyllfa gref wrth baratoi'u cynllun, gan wella'r sefyllfa yn fawr.

Yn ogystal, mae'r cynllunio strategol a argymhellir yn y Bil Cynllunio (Cymru) yn golygu y gellir delio â materion cynllunio trawsffiniol fel tai trwy Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Mae'r CDS yn annog rhannu adnoddau, yn osgoi dyblygu, yn lleihau ailadrodd ac yn gwella effeithlonrwydd. Bydd y CDS yn ymdrin â materion fel y ddarpariaeth dai ar raddfa fwy na'r raddfa leol ac mewn ffordd fwy integredig a chynhwysfawr.

Mae Argymhelliad 2 yn codi pwyntiau sydd y tu allan i'm portffolio. Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, sy'n gyfrifol am gyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd. Cyhoeddodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ragolygon oedd yn seiliedig ar ffigurau 2011 ym mis Chwefror 2014. Datblygwyd yr amcanestyniadau 2011 hyn mewn cydweithrediad clos â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru trwy weithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru. Fforwm oedd y gweithgor i drafod a dewis methodoleg a data sylfaen ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol oedd yn deall a/neu â phrofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn aelodau ohono.

Un o brif gasgliadau'r grŵp technegol oedd y byddai ychwanegu amrywiolyn ymfudo arall ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth ar sail cyfnod mesur hwy (10 mlynedd) at y gyfres bresennol o amcanestyniadau yn cryfhau'r amcanestyniadau hynny. Mae'n dda gennyf ddweud bod amcanestyniadau poblogaeth 2011 a'r amcanestyniadau aelwydydd (sy'n seiliedig arnynt) yn cynnwys yr amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd newydd. Mae'r model amcanestyn sy'n sail iddo, ynghyd â'r rhagdybiaethau a llwyth o dystiolaeth ychwanegol, ar gael i bob Awdurdod Cynllunio Lleol. Caiff yr Awdurdodau hyn felly gynnal gwaith modelu pellach gan gymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth os oes angen i gynhyrchu allbynnau amgen. Bydd ansawdd y dystiolaeth yn allweddol wrth benderfynu a yw Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn', ac a oes modd ei fabwysiadu ar ôl ei archwilio. Yn ogystal â'r rhagdybiaethau technegol i gefnogi mwy o dai, mae hyn yn ymwneud hefyd â phob agwedd ar y cynllun, y cysylltiadau a chyfeiriad y cynllun cyfan.

Rwy'n gobeithio'ch bod chi fel finnau yn gweld bod cynnydd, gwybodaeth a gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran cynnal eu hamcanestyniadau cadarn a chredadwy eu

hunain yn destun calondid.  Yn dyst i hynny yw nifer y Cynlluniau Datblygu Lleol sydd hyd yma wedi'u mabwysiadu yng Nghymru.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources